Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Astudiaeth achos ar sail arferion gorau

## Integreiddio TGCh

www.cymru.gov.uk

Gyda gweledigaeth glir o sut gall technoleg wella profiadau ystafell ddosbarth, mae **Ysgol Gynradd Casllwchwr** yn Abertawe wedi sefydlu TGCh ym mhob agwedd ar fywyd ysgol.

Bellach mae dyfeisiau TG a ddelir yn y llaw yn rhan mor hanfodol o waith bob dydd â phen a phapur.

Mae dysgwyr a staff wedi croesawu'r dechnoleg ddiweddaraf i wella'r profiad dysgu, datblygu sgiliau, gwella cyfathrebu, ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr ac ennyn eu diddordeb.

Defnyddir iPods ac iPads fel rhan o lythrennedd, a gall dysgwyr greu eu ffilmiau eu hunain fel rhan o wersi Cymraeg.

Mae dysgwyr yn defnyddio technoleg i wirio eu gwaith, ymchwilio, cael hyd i ystyr geiriau newydd a gwirio sillafu. Drwy gofnodi eu gwaith eu hunain a lanlwytho i wefan yr ysgol, mae dysgwyr hefyd yn cyfrannu at ddatblygu adnoddau dysgu newydd.

Gall dysgwyr weithio ar ddyfeisiau ac yna e-bostio eu gwaith i gyfrifon dosbarth, cadw ac argraffu eu cynnyrch gorffenedig.

Gan ddefnyddio amryw o ffynonellau gan gynnwys nawdd a grantiau, mae Casllwchwr wedi buddsoddi mewn technoleg Apple ond mae hefyd yn defnyddio cyfrifiaduron personol i sicrhau bod dysgwyr yn cael profiad o weithio gyda phlatfformau gwahanol.

Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn 18 dyfais iPod touch a ddefnyddir ar gyfer pob math o dasgau ar draws y cwricwlwm, yn ogystal â chamerâu a chamerâu fideo.

Disgwylir dechrau caniatáu i ddysgwyr ddod â'u iPods a'u iPads eu hunain i'r ysgol i helpu'r dysgu. Mae clwb hyfforddi rhieni/gofalwyr wedi dechrau hefyd sy'n rhoi cyfle iddyn nhw ddysgu gyda'i gilydd.

Mae Casllwchwr wedi cydnabod bod arweinyddiaeth yn brif ystyriaeth wrth gyflwyno technoleg newydd. Mae Rheolwr E-ddysgu wedi cael ei benodi i oruchwylio'r defnydd o dechnoleg ac arbrofi gyda TGCh i gael hyd i ffyrdd newydd o wella addysgu.

Mae dysgwyr yn cymryd rhan trwy eu Cynllun Cenhadon Apple. Mae pob Cennad yn helpu i gynnal yr offer, mentora dysgwyr iau ar apps newydd a hyd yn oed hyfforddi aelodau newydd o staff ar y dechnoleg.

**Codi** Safonau Ysgolion
**Raising** School Standards

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2012
WG14988

Mae’r pennaeth, Simon Pridham, yn amlinellu chwe maes hanfodol mae angen i’r ysgol eu cynllunio a’u hystyried pan fydd yn cyflwyno technoleg newydd, sef:

- arweinyddiaeth
- cost
- gweithrediad y rhwydwaith
- diogelwch
- fframweithiau athronyddol
- addysgeg.

Dywedodd:

> **Fel pob menter dechnolegol, y nod yw gwneud mwy na dim ond defnyddio’r dechnoleg; rhaid harneisio ei phŵer i newid neu wella’r amgylchedd lle caiff ei defnyddio. Yng Nghasllwchwr, credwn bydd cyflwyno technoleg symudol yn gweld newid sylfaenol i’r amgylchedd dysgu, gan roi cyfle i’r dysgwyr ddysgu sgiliau’r unfed ganrif ar hugain a bod yn ddinasyddion cynhyrchiol a gwybodus. Gall staff ymgysylltu’n llwyr â’n dysgwyr ‘yn eu byd eu hunain’ fel petai.**

Ond nid yw prynu’r galedwedd a’r feddalwedd ddiweddaraf yn ddigon i wella deilliannau’r dysgwyr. Ychwanegodd Mr Pridham:

> **Rydyn ni’n dweud wrth gydweithwyr dro ar ôl tro bod technoleg, addysgeg a chwricwlwm yn dri ffactor sy’n gallu gwneud gwahaniaeth enfawr gyda’i gilydd.**

Mae’r ysgol wedi gweld gwelliant mewn perfformiad, yn enwedig llythrennedd bechgyn. Gan ddefnyddio’r dechnoleg newydd, mae dysgwyr Blwyddyn 6 wedi dechrau gweithio ar brosiect i gynhyrchu llyfr, yn seiliedig ar eu cyfweliadau â sêr chwaraeon Cymru. Cyhoeddwyd y llyfr gyda’r elw yn mynd yn ôl i’w wario ar dechnoleg ysgol.

Ers y prosiect hwnnw roedd bechgyn wedi gwella Saesneg Lefel 4 gan 25 y cant a dechrau perfformio’n well na’r merched. Cafodd yr ysgol ei rhestru’n rhif 1 ym mhob un o’r tri phwnc craidd o fewn eu grŵp teulu Cymraeg ar gyfer cyflawniad Lefel 5 y flwyddyn ddiwethaf.

Enillodd Casllwchwr Third Millennium Learning Award NAACE yn Rhagfyr 2011 – yr unig ysgol gynradd Gymraeg a ddewiswyd i dderbyn y clod.

Erbyn hyn mae’r ysgol yn bwriadu rhannu ei harferion gorau ag ysgolion eraill yng Nghymru ac mae eisoes wedi llunio glasbrint ar gyfer ysgolion sydd am gyflwyno technoleg yr unfed ganrif ar hugain.